

Adolygiadau o'r marcio – marciau a asesir gan y ganolfan (Gwaith cwrs TAG, asesiadau di-arholiad TAG a TGAU, cymwysterau Project)

Templed a awgrymir i ganolfannau

Mae **[Enw'r Ganolfan]** wedi ymrwymo i sicrhau bod gwaith ymgeiswyr yn cael ei farcio'n deg, yn gyson ac yn unol â manyleb a dogfennau cysylltiedig pwnc-benodol y corff dyfarnu pan fo staff y ganolfan yn gwneud y marcio.

Bydd gwaith ymgeiswyr yn cael ei farcio gan staff sydd â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgîl priodol, ac sydd wedi'u hyfforddi yn y gweithgaredd hwn. Mae **[Enw'r Ganolfan]** wedi ymrwymo i sicrhau bod gwaith a gynhyrchir gan ymgeiswyr wedi'i ddilysu yn unol â gofynion y corff dyfarnu. Lle bo nifer o athrawon pwnc yn ymwneud â marcio gwaith ymgeiswyr, bydd safoni a chymedroli mewnol yn sicrhau cysondeb y marcio.

1. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'u marciau a asesir gan y ganolfan fel y gallant wneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan os oes angen cyn cyflwyno'r marciau i'r corff dyfarnu.
2. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn rhoi gwybod i ymgeiswyr y gallan nhw wneud cais am gopiau o'r deunyddiau i'w cynorthwyo wrth ystyried p'un a ydynt am wneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan o'r asesiad.
3. Bydd **[Enw'r Ganolfan]**, yn brydlon ar ôl derbyn cais am ddeunyddiau, yn sicrhau eu bod ar gael i'r ymgeisydd. Bydd yr ymgeisydd naill ai'n cael gweld y deunyddiau gwreiddiol dan oruchwyliaeth neu bydd yn derbyn copïau ohonynt.
4. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn rhoi digon o amser i ymgeiswyr adolygu copïau o ddeunyddiau ac i gyrraedd penderfyniad, o leiaf pum diwrnod gwaith fel arfer.
5. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn darparu dyddiad cau clir i ymgeiswyr gyflwyno cais am adolygiad o farcio'r ganolfan. Ni fydd ceisiadau ar ôl y dyddiad cau hwn yn cael eu derbyn. **Rhaid** gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig a **rhaid** i ymgeiswyr esbonio eu rhesymau dros wneud cais am adolygiad.
6. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn caniatáu digon o amser i gynnal adolygiad, er mwyn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r marcio ac i hysbysu'r ymgeisydd o'r canlyniad cyn dyddiad cau y corff dyfarnu ar gyfer cyflwyno marciau.
7. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn sicrhau bod yr adolygiad o farcio yn cael ei gynnal gan aseswr sydd â chymhwysedd priodol, sydd heb ymwneud ag asesu'r ymgeisydd yn y gydran dan sylw o gwbl yn flaenorol, ac sydd heb fudd personol o gwbl yng nghanlyniad yr adolygiad.

8. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn cyfarwyddo'r adolygwr i sicrhau bod marc yr ymgeisydd yn gyson â'r safon a osodwyd gan y ganolfan.
9. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig am ganlyniad yr adolygiad o farcio'r ganolfan.
10. Bydd pennaeth y ganolfan yn cael ei hysbysu o ganlyniad yr adolygiad o farcio'r ganolfan. Bydd cofnod ysgrifenedig o'r adolygiad yn cael ei gadw a bydd ar gael i'r corff dyfarnu os gofynnir amdano. Bydd y ganolfan yn rhoi gwybod i'r corff dyfarnu os nad yw'n derbyn canlyniad adolygiad.

Gallai'r broses gymedroli a gynhelir gan y corff dyfarnu arwain at newid marc, naill ai fyny neu i lawr, hyd yn oed ar ôl adolygiad mewnol. Mae'r broses adolygu fewnol ar waith er mwyn sicrhau cysondeb marcio yn y ganolfan, ac mae'r broses gymedroli gan y corff dyfarnu yn sicrhau bod marcio'r ganolfan yn unol â safonau cenedlaethol. Gallai'r marc a gyflwynwyd i'r corff dyfarnu newid ac felly dylid ei ystyried yn farc dros dro.